

**Gwerthuso a nodi'n feirniadol y camau dysgu ac
addysgu nesaf gan ganolbwyntio ar astudiaeth
achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, ar sail
achos beirniadol a arsylwyd.**

Cyflwyniad

Mae'r aseiniad yma yn canolbwyntio ar werthusiad beirniadol a'r camau addysgu a dysgu nesaf wrth ganolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, ar sail achos critigol. Pwrpas yr aseiniad yw i baratoi ar gyfer addysgu ac i astudio ac ymchwilio mewn i ymddygiad plant a'r ffordd mae nhw'n dysgu er mwyn medru bod o gymorth iddyn nhw, a'u harwain at lwyddiant trwy gyrraedd eu hamcanion. Ynghyd â hyn, cynnigodd yr astudiaeth gyfle i ddod yn gyfarwydd ag arsylwi ac adfyfrio fel athrawon o dan hyfforddiant er mwyn ein helpu i fod yn athrawon sy'n deall eu disgyblion a bod yn ymwybodol o'u hymddygiad wrth ddysgu o fewn y dosbarth.

Mae'r aseiniad yn canolbwyntio ar achos critigol trwy ddefnyddio dull astudiaeth achos. Fel mae'r aseiniad yn esbonio ymhellach ymlaen, nid oes angen i achos critigol fod yn ddigwyddiad negyddol. Disgrifir (Richard a Farrell 2010), fod achos critigol yn ddigwyddiad heb ei ragweld sy'n gallu bod yn gymorth i athrawon ddysgu o'r digwyddiad penodol, a gwella'r ffordd mae nhw'n ymateb iddynt yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n gyfle i athrawon ac athrawon o dan hyfforddiant ddod i adnabod eu disgyblion a gwybod sut i fod o gymorth iddyn nhw wrth ddysgu (Richard a Farrell 2010).

Bydd yr aseiniad yma yn cynnwys arsylwadau wrth arsylwi dosbarth ac arsylwi achos critigol. Hefyd, byddaf yn trafod y fethodoleg defnyddiais, sut mae'r achos critigol yn gysylltu gyda'r Pedwar Diben Donaldson, yn ogystal â thrafod beth gallwn ni ddysgu o'r achos critigol hynny.

Arsylwi

Mae Ysgol A yn darparu ar gyfer disgyblion o dair i bedwar ar bymtheg mlwydd oed. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn yr ysgol yn perthyn i grŵp ethnig gwyn (Estyn, 2017). Mae 41% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg adref, ond mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yma ag un rhiant sy'n siarad Cymraeg. Mae 9% o ddisgyblion yr ysgol ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n eithaf isel ar gyfer ysgol sy'n darparu ar gyfer disgyblion o dair i bedwar ar bymtheg mlwydd oed. Yn ôl Estyn, mae tua 8% o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer derbyn cinio ysgol am ddim (Estyn, 2017). Mae hwn yn sylweddol is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Yn ardal Rhondda Cynon Taf, mae 6,012 o blant yn gymwys ar gyfer derbyn cinio am ddim, ac felly mae Ysgol A dim ond yn gyfrifol am 8% o'r cyfanswm sirol (Stats Wales, 2019). Caiff yr ysgol ei chanmol am safon Cymraeg y disgyblion ar lafar yn ogystal â'u sgiliau dros y cwricwlwm (Estyn, 2017). Er hyn, nodir bod yna welliant i weld yn eu gwaith ysgrifennedig ar ôl gweld camgymeriadau gramadegol (Estyn, 2017). Mae nifer o ddisgyblion a dderbynodd TGAU A*-G yn cymharu'n ffafrifol i ysgolion tebyg (Estyn, 2017). Cafodd yr ysgol ei chategreiddio yn

wyrdd yn 2019 (Wightwick, 2019). Golygir bod yr ysgol yn effeithiol iawn ac yn esiampl i ysgolion eraill.

Y dosbarth arsylwais oedd dosbarth blwyddyn 8 gyda chymysgedd o alluoedd. Roedd e'n wers cerddoriaeth yn ystafell dechnoleg gwybodeth. Roedd gan y dosbarth athro cyflenwi. Pwpras y wers oedd i ymchwilio mewn i gerddorion Blues. Cyflwynodd y wers y thema nesaf bydden nhw'n astudio. Dechreuon nhw drwy ymchwilio a chreu pwynt pwer fel dechreuad i'r topig. Yn y dosbarth yma, roedd tua 30 o ddisgyblion.

Methodoleg

Mae yna nifer o ffurf wahanol i arsylwi a chasglu gwybodaeth. Mae Dave Hopkins yn cydnabod y pedwar ffordd wahanol o arsylwi. Esbonir bod yna pedwar prif ffurf wahanol sef ffurfiau arsylwi agored, ffocws, strwythuredig a systematig (Dave Hopkins, 2008). Mae arsylwi agored yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau sy'n ffitio o fewn categorïau penodol. Gall y fath yma o arsylwi arwain at farnau cynamserol (Hopkins, 2008). Mae arsylwi ffocws yn defnyddio technegau cwestiynu, ond gall hyn achosi'r arsylwi i golli prif nôd yr arsylwad (Hopkins, 2008). Mae gasglu gwybodaeth trwy system e.e system tali neu diagram yn cael ei adnabod fel arsylwi strwythuredig (Hopkins, 2008). Mae hwn yn cynhyrchu casgliadau ffeithiol yn hytrach na beirniadol (Hopkins, 2008). Yn olaf, mae arsylwi systematig yn defnyddio graddfa codio i nodi ymddygiad penodol (Hopkins, 2008). Mae'n deg i nodi, trwy ddefnyddio'r dull yma o arsylwi, gall gwybodaeth cael ei cholli oherwydd mae angen glynnu at y system graddio.

Y fethodoleg ddefnyddiais oedd astudiaeth achos. Yn ôl Bell a Waters, mae astudiaeth achos yn ddefnyddiol ar gyfer ymchwilwyr unigol oherwydd mae'n cynnig cyfle i ymchwilio mewn i un agwedd penodol mewn dyfnder (Bell a Waters, 2018). Gall y fethodoleg yma cael ei defnyddio i ymchwilio ymhellach mewn i gasgliadau o holiaduron, neu gellir cael ei defnyddio i gwblhau holiadur i adnabod problemau penodol sydd â'r potensial i arwain at ymchwiliad pellach (Bell a Waters, 2018). Gan amlaf, mae'r data a'r gwybodaeth yn cael eu casglu mewn ffordd cyfundrefnol, lle mae'n bosib i weld y berthynas rhwng newidynnau'r astudiaeth (Bell a Waters, 2018). Esboniodd Diana Burton a Steve Bartlett, bod y dull yma yn cantiatu i chi arsylwi mewn amgylchedd naturiol sy'n denu sylw at ymddygiadau penodol (Burton a Bartlett, 2009). Ond, gall hwn achosi problemau gyda chroeswiro'r wybodaeth a nid yw'n bosib cyffredinolli mewn astudiaethau achos bob tro (Bell a Waters, 2018). Er hyn, mae angen cofio, gall yr arsylwr ddylanwadu ar ymddygiad y dosbarth oherwydd mae nhw'n berson newydd yn y dosbarth (Burton a Bartlett, 2009). Mae hwn yn achosi'r effaith Hawthorne. Yn ôl Campbell a Stanley, mae effaith Hawthorne yn effeithio dibynadwyedd arbrofion arsylwi (Adair, Sharpe a Huynh, 1989). Mae'n ymddangos oherwydd trwy arsylwi

dosbarth, mae'n bosib gall disgyblion ymddwyn mewn ffurf wahanol, naill ai mae nhw'n ymddwyn yn well neu mae nhw'n cynhyrfu oherwydd mae nhw'n ymwybodol bod yna rywun yn arsylwi.

Mae yna ddau fath o arsylwi, sef arsylwr cyfrannwr adweitheddol ac arsylwr sydd ddim yn cyfrannu. Mae arsylwr cyfrannwr yn cymryd rhan yn y gweithgareddau yn ogystal âg arsylwi (Wood a Smith, 2016). Tra bod arsylwr sydd ddim yn cyfrannu yn arsylwi yn unig ac yn osgoi rhyngweithiad gyda'r disgyblion (Wood a Smith, 2016). Wrth arsylwi'r dosbarth, cymerais i'r ddull o fod yn arsylwr adweithiol hynny yw, roedd y disgyblion yn ymwybodol fy mod i'n arsylwi a rhyngweithiais gyda'r disgyblion pan oedd yn addas (Wood a Smith, 2016). Roedd hwn yn caniatáu i mi ehangu fy arsylwadau trwy arsylwi'r dosbarth yn fanwl er mwyn casglu gwybodaeth, ei dadansoddi ac ysgrifennu am y digwyddiad (Ostrower, 1998).

Roedd astudiaeth achos yn addas ar gyfer ymchwilio mewn i achos critigol oherwydd, cynnigwyd y cyfle i arsylwi grŵpiau gwahanol o blant mewn amgylchedd naturiol heb amharu ar eu trefn dyddiol. Esbonir Tripp, mae achos critigol yn rhywbeth sy'n cael ei greu gan y ffordd rydym yn dadansoddi digwyddiad a'i fod yn ddehongliad o arwyddocâd digwyddiad (Tripp, 1993). Nid oes angen i achos critigol bod yn rywbeth negatif neu amlwg. Disgrifir Tripp fod y digwyddiad yn 'nodweddiadol' ond mae dod yn 'gritigol' wrth ei ddadansoddi (Tripp, 1993). Felly, mae'r ffordd rydym yn dehongli a dadansoddi digwyddiad yn penderfynu os yw'n gritigol neu beidio ac yn arwain at ymchwil bellach.

Y Pedwar Diben

Fel yr ydym yn ymwybodol, mae'r cwricwlwm yn newid yn 2022, er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd wrth addysgu. Daeth y syniadau o Donaldson a ffurfiodd Adroddiad Donaldson oedd yn amlinellu'r newidiadau. Mae hefyd yna bwyslais ar hybu paratoi plant ar gyfer y dyfodol a bywyd pob dydd. Mae'n trawsnewid yr ymarfer o gadw pob pwnc ar wahan i gyfuno a chysylltu pob pwnc trwy fod yn drawsgwricwlaidd. Mae hefyd yn anelu at ddatblygu disgyblion yn foesol, ddiwylliannol, ysbrydol, feddyliol a chorfforol (Donaldson, 2015).

Mae Adroddiad (Donaldson, 2015) yn cynnwys Pedwar Diben sy'n adlewyrchu'r nodweddion dylai'r cwricwlwm ymarfer. Mae'r Pedwar Diben yn cynnwys:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog
- Cyfrannwyr mentrus, creadigol
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus
- Unigolion iach, hyderus

Mae'r Pedwar Diben wrth wraidd y cwricwlwm newydd ac yn fan cychwyn ar gyfer pob penderfyniad yn ôl y cwricwlwm. Yn ogystal, bydden nhw'n dylanwadu ar gynllunio, asesu ac addysgu (Llywodraeth Gymru, 2015). Felly, mae'r Pedwar Diben yn rhoi cyfle i blant ddatblygu'r nodweddion yma ac i baratoi am y dyfodol. Ynghyd â hyn, mae'n dysgu plant i fod yn hyblyg a rhoi cyfleoedd iddynt i barhau i ddysgu sgiliau newydd wrth i'r amgylchedd o'u cwrdd newid (Welsh government, 2016).

Achos Critigol

Yr achos critigol mae'r traethawd yn canolbwyntio arni yw disgybl sydd yn fud ddetholus. Digwyddodd yr achos critigol yma yn yr asylwad cyntaf yn nosbarth blwyddyn 8. Roedd yn wers Gerddoriaeth ac roedd gan y dosbarth athro cyflenwi. Mae'r disgybl fel arfer yn siarad gyda'i gyd-ddisgyblion a rhai aelodau staff. Gwnaeth yr athro y gofrestr a galwodd yr athro enw'r disgybl, ond ni wnaeth y disgybl ateb. Parheiodd yr athro i alw ei enw, ac o ganlyniad i'r disgybl yn peidio ymateb, credodd yr athro fod y disgybl yn absennol. Ymatebodd gweddill y dosbarth trwy esbonio nad oedd y disgybl yn siarad. Nid oedd yr athro yn ymwybodol o anhwylder anhawsterau'r y disgybl. Ar ôl y digwyddiad, ni aeth yr athro at y disgybl i siarad ag ef na'i gysuro'r, gall hyn fod oherwydd nad oedd yn siwr sut i ddelio gyda disgybl a'r math yma o anhwylder neu oherwydd bod yr athro ei hun yn teimlo'n yn chwithig.

Mae'r achos critigol yma yn gysylltiedig ag un o'r Pedwar Diben yn benodol sef, 'unigolyn iach ac hyderus'. Mae'n gysylltiedig â'r diben yma oherwydd mae'n ymwneud â iechyd yr unigolyn yn ogystal a'i hyder. Cafodd y digwyddiad effaith ar hyder y disgybl am fod gweddill y disgyblion wedi esbonio ei anhwylder o flaen pawb gan dynnu sylw at y disgybl ei hun. Mae'n bosib y gwnaeth hyn effeithio ei hyder ac felly mae'n bwysig ceisio osgoi sefyllfa fel hyn oherwydd gall wedi effeithio ar y disgybl drwy'i wthio nôl yn hytrach na'i annog i gyfathrebu a theimlo'n gyfforddus i adeiladu y berthynas gyda staff. Gall hyn cael ei osgoi trwy sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o anghenion ychwanegol disgyblion er mwyn bod yn ymwybodol o'r ffordd gorau i ddelio ac i gymhwyso pob disgybl o fewn y dosbarth heb ddenu unrhyw sylw i'r disgyblion penodol. Mae'n bwysig i athro wybod beth sy'n gwneud disgybl yn hapus a chyfforddus a pha strategaethau sydd mwyaf effeithiol wrth ddelio gyda'r unigolion hynny.

Adolygiad llyfryddiaeth

Mae fy achos critigol yn cysylltu gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a dealltwriaeth athrawon am anghenion plant. Mae disgybl A yn fud ddetholus sydd ag ADY. Mud ddetholus yw anhwylder gorbryder mewn plentyndod, lle mae nhw'n cael anhawster i gyfathrebu yn effeithiol (Dr. Shipon-Blum, 2019). Mae gan rai ddioddefwyr ofn o sefyllfaoedd cymdeithasol ac felly credaf fod yr achos critigol yma yn cysylltu'n effeithiol gyda'r ffactor yma. Mae hefyd

yn gystylltiedig â lles plant oherwydd mae'n effeithio ar les y disgybl, yn enwedig yn y ffordd mae'r athrawon yn ymateb i anghenion y disgybl. Felly, bydd y pennod yma yn canolbwyntio ar lyfryddiaeth sy'n ymwneud â'r ddwy factor yma.

Yn ôl gwefan *Dewis Cymru*, mae ADY yn cyfeirio at blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu, synhwyraidd a chorfforol sy'n achosi trafferth iddyn nhw ddysgu wrth gymharu a phlant neu bobl ifanc o'r un grŵp oedran (Dewis Cymru, 2018). Felly, mae disgybl A yn dod o dan ADY. Mae barnau o ADY a'r ffordd dylai cael ei ystyried o fewn addysg wedi newid dros y blynyddoedd. Yn ôl (Michael Dauncey, 2016), penderfynodd Cynulliad Cymru, nad oedd y system o dan y ddeddf Addysg 1996 yn addas ar gyfer heddi. O ganlyniad, cafodd y ddeddf ei disodli a datblygwyd system sy'n cymryd dull mwy modern a fydd yn gymorth i ddisgyblion gyda ADY trwy eu cyfnod yn addysg (Dauncey, 2016). Esbonir (Dauncey, 2016), bod y fframwaith newydd yn cefnogi plant a phobl ifanc o 0-25 gyda ADY mewn ysgolion ac addysg bellach trwy asesiadau, cynlluniau unigol a montiro'r unigolion, gan gynnwys ehangu ar y cysyniad o ADY. Yn ogystal, pwysleisir (Dauncey, 2016) pwysigrwydd hawliau yr unigolyn a sut dylwn ystyried lles yr unigolyn wrth wneud penderfyniadau ynglyn â'i addysg, er enghraifft trwy greu Cynlluniau Addysg Unigolyn i gefnogi targedau a llwyddiannau. Mae'r tystiolaeth yma yn dod o Adroddiad Llywodraeth Cymru ac felly, mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a dibynadwy gan ei bod yn deillio o bobl sy'n gysylltiedig â'r newidiadau. Mae'n bellach yn ddefnyddiol gan fod y newidiadau i ddeddfau ADY yn dod i rym ym 2020, lle esbonir (Dauncey, 2017), bydd y ddeddf yn gymorth i unigolion o 0-25 gan symud i ffordd o fframwaith SEN a sefydlu fframwaith ADY.

Mae gwaith Paul Chaney yn adlewyrchiad o wraidd adroddiad Dauncey. Mae ei waith yn ymchwilio mewn i sut mae polisiau a'r gyfraith ar ADY wedi datblygu wrth ystyried y cwricwlwm ac i adolygu termau a pholisiau yn nhermau nodau, themau a gwerthoedd (Paul Chaney, 2012). Yn debyg i Dauncey, trafodir (Chaney, 2012) y pwyslais ar gydraddoldeb ac i gynnal cymorth i unigolion sydd ag ADY. Hefyd, pwysleisir pwysigrwydd ymglymiad rieni a gweithio gyda nhw i sicrhau y gorau ar gyfer lles yr unigolyn yn fwy yn waith (Chaney, 2012) nag yn waith Dauncey. Yn ogystal, cyfforddir (Chaney, 2012) ar sut caiff yr cwricwlwm ei siapio gan hawliau dynol. Mae'n ffocysu ar yr amcan i sicrhau bod pob plentyn ag ADY â'r hawl i dderbyn yr un cyfleoedd a phob plentyn arall yn addysg a bod pob athro yn ymwybodol o hyn er mwyn sicrhau eu bod nhw'n ymroddedig i ddarparu'r cyfleoedd yma (Chaney, 2012). Ynghyd â hyn, yn wahanol i Dauncey, cyfeirir at lwyddiant disgyblion gyda ADY wrth iddynt dderbyn y cymorth gorau a chywir yn yr ysgol (Chaney, 2012). Mae'r erthygl yma yn ddefnyddiol i ystyried, oherwydd mae'n cyfeirio at yr ochr wleidyddol yn ogystal â gwybodaeth fwy gyffredinol, wrth gymharu â gwaith Dauncey. Er hyn, mae'r wybodaeth bach

yn hŷn na adroddiad Dauncey, felly mae'n werth cadw hyn mewn meddwl wrth ystyried y ddau.

Mae gwaith Norah Frederickson a Tony Cline yn fwy beirniadol yn hytrach nag ystyried polisiau. Ysgrifennodd (Frederickson & Cline, 2009) y llyfr oherwydd credon nhw nad yw llyfrau eraill yn adlewyrchu'r newidiadau i'r gymdeithas sy'n dylanwadu ar addysg unigolion ag ADY. Mae eu gwaith yn ffocysu ar yr ochr gymdeithasol yn hytrach na gwleidyddol. Nodir (Frederickson & Cline, 2009) er mwyn deall anhawsterau dysgu, mae angen ystyried y cwrwllwm a'r amgylchedd dysgu. Pwyslir (Frederickson & Cline, 2009) y dylwn ni gwestiynu 'sut dylen nhw cael eu dysgu? Yn hytrach na 'lle dylen nhw cael eu dysgu?' Credir (Frederickson & Cline, 2009) gall disgyblion ag ADY lwyddo mewn ysgolion cyffredin ag ystyried gwahaniaethau unigol rhwng y blant. Yn wahanol i Chaney, mae nhw'n son am sut mae anhawsterau personol yn cael eu hystyried fel project i'r holl ysgol yn hytrach na'r disgyblion sy'n dioddef ar ben ei hun (Frederickson & Cline, 2009). Hefyd, mae Frederickson & Cline yn ffocysu mwy ar yr ochr amgylcheddol sy'n wahanol i waith Dauncey a Chaney. Esbonir (Frederickson & Cline, 2009) bod yn bwysig i ystyried yr amgylchedd lle mae nhw'n dysgu yn ogystal â nodweddion unigol. Mae'r erthygl yma yn ddefnyddiol wrth ystyried disgyblion ag ADY oherwydd mae'n cymryd dull gwahanol wrth gymharu â'r dau arall. Cymerir Frederickson & Cline y persbectif ymddygiadol trwy esbonio bod angen ystyried yr amgylchedd lle mae'r disgybl gyda ADY yn dysgu yn hytrach na'r unigolyn yn unig (Frederickson & Cline, 2009). Mae hyn o werth ystyried yn enwedig ar ôl ystyried y ddau theori arall oherwydd mae'n cyflwyno persbectif gwahanol yn hytrach na chanolbwyntio ar bolisiau yn unig.

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod unigolion ag ADY yn dysgu'n wahanol i ddisgyblion sydd heb ADY, ac efallai mae nhw angen cymorth ychwanegol. Ysgrifennodd Wendy Spooner lyfr ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, NQTs a chynorthwywyr dosbarth. Nodir (Wendy Spooner, 2010), nod ei llyfr oedd cyflwyno cymorth wrth addysgu disgyblion gyda ADY. Mae hi hefyd yn mynd ymlaen i drafod theorïau gwhanol gan gynnwys amrywiaeth o ddulliau gall fod yn addas wrth addysgu disgyblion gyda ADY. Er enghraifft, cyfeirir at waith Piaget ynglyn â chamau i ddatblygiad plant, yn ogystal â gwaith Vygotsky lle esbonir bod dysgu yn broses cymdeithasol (Spooner, 2010). Mae'r llyfr yma yn ddefnyddiol oherwydd mae'n esbonio sut mae theorïau yma yn cysylltiedig â dysgu yn y dosbarth a pham mae'n bwysig i athrawon adnabod rhain. Ynghyd â hyn, mae hefyd yn pwysleisio yr angen i fod yn ymwybodol nad yw disgyblion gyda ADY yn dilyn y theorïau yma, ac felly mae'n bwysig i addasu eich dulliau addysgu (Spooner, 2010). Pwysleisir pwysigrwydd cyfathrebu a defnydd o iaith i helpu disgyblion gyda ADY a dull scaffoldio fel dull i arwain disgyblion at lwyddiant (Spooner, 2010). Mae disgyblion yn dysgu mewn ffurf gwahanol, ac fel athro mae'n bwysig i

adnabod hyn. Trafodir (Spooner, 2010), y mathau gwahanol o ddysgu, er enghraifft, clybodol, gweledol, kinaesthetic a chyffyrddol. Wrth ystyried y disgybl yn yr achos critigol, mae'n bosib bod well gan y disgybl ddysgu trwy'r ffordd cyffyrddol. Mae gwaith Spooner yn ddefnyddiol i geisio ystyried y dulliau addas ar gyfer dysgu disgyblion gyda ADY.

Mae gwaith gan Suanne Gibson a Sonia Blandford yn ehangu ar beth y darllenom gan Spooner, trwy drafod pwysigrwydd i athrawon wahaniaethu cynlluniau gwersi er mwyn darparu ar gyfer pob disgybl (Gibson & Blandford, 2005). Mae eu gwaith yn cydnabod bod gwahaniaethu tasgau yn hanfodol ar gyfer disgyblion er mwyn sicrhau bod pawb yn llwyddo a chyrraedd eu targedau. Esbonir (Gibson & Blandford, 2005) pwysigrwydd staff yn cyfathrebu gyda'i gilydd fel ysgol er mwyn trafod sut i baratoi gwersi effeithiol ar gyfer disgyblion gyda ADY. Nodir bod angen newid yr ysgol er mwyn lles y disgybl (Gibson & Blandford, 2005). Er bod eu gwaith yn ceisio esbonio beth mae angen gwneud er mwyn sicrhau arwain a bod yn gymorth i ddisgyblion i gyrraedd llwyddiannau, nid oes enghreifftiau neu syniadau manwl fel sydd yng ngwaith Spooner. Gall hyn fod oherwydd cafodd gwaith Spooner ei gwblhau pum mlynedd ar ôl gwaith Gibson a Blandford ac felly roedd llai o ymchwil i ddatblygu ac ehangu.

Caiff nifer o astudiaeth ac ymchwil ei wneud ar berspectifs gwahanol wrth addysgu disgyblion gyda ADY. Mae gwaith gan (Zena Lawrence, 2018) yn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd o fod yn gymorth i blant ddod dros eu pryderon wrth gyfathrebu gydag eraill. Mae hwn yn ddefnyddiol oherwydd, mae'n bosib yn y ffordd ymatebodd yr athro cyflenwi, yn yr achos critigol. Nad oedd wedi cynorthwyo'r disgybl i deimlo'n gyfforddus a goresgyn ei bryder. Yn debyg i waith Gibson a Blandford, mae (Lawrence, 2018) yn esbonio sut mae'r amgylchedd yn dylanwadu ar ymddygiad disgyblion, a bod angen wastad ystyried hyn wrth ddelio gyda disgyblion gyda ADY. Yn wahanol i waith eraill cafodd eu trafod yma, mae Lawrence yn trafod sut gall diffyg dealltwriaeth o anhwylder mud ddetholus arwain at waethygu ymddygiad yr unigolyn ac achosi'r disgybl i golli mwy o hyder a gwrthio'r unigolyn yn ôl o ran ei gynnydd yn y dosbarth (Lawrence, 2018). Mae hyn yn adlewyrchiad clir o'r achos critigol gan nad oedd yr athro cyflenwi yn ymwybodol o anhwylder y disgybl o flaen llaw ac felly, mae'n bosib cafodd hyn effaith ar hyder y disgybl.

Felly, wrth astudio'r holl waith uchod, mae gennym well dealltwriaeth o ADY a sut y gall ddylanwadu ar allu unigolion. Yn ogystal â newidiadau a gwelliannau rydym am weld yn y dyfodol ar gyfer lles plant a phobl ifanc ag ADY. Hefyd, mae gennym well dealltwriaeth ynglyn â'r ffyrdd gorau i addysgu disgyblion ag ADY a pha ddulliau yw'r gorau i'w cynorthwyo nhw i gyrraedd eu hamcanion.

Adfyfrio a gwerthuso.

Mae adfyfyrion yn gam pwysig o arsylwi er mwyn medru darganfod patrymau penodol, neu ymddygiad penodol sy'n ymddangos er mwyn gallu ehangu ar eich dealltwriaeth a chymryd eich ymwchwil ym mhellach. Dylai adfyfyrion arwain at weithredu i wybod beth i wneud yn wahanol a beth dylwn adael yr un peth (Caroline Ramsey,2006). Mae yna fathau wahanol o adfyfyrion a bydd y pennod yma yn cyffwrdd ar rhain, yn enwedig yr un defnyddiais i, hynny yw, Model Beirniadau Wedi Adfyfyrion (BWA).

Caiff rhai dulliau o adfyfyrion eu hesbonio gan Gemma Jackson. Un dull mae Jackson yn esbonio yw adfyfyrion cydweithiol (Gemma Jackson, 2019). Mae'r dull yma yn pwysleisio'r syniad o rannu eich darganfyddiadau neu arsylwadau gydag eraill (Jackson,2019). Mae technoleg yn ddull effeithiol i gyflawni'r fath yma o adfyfyrion gan ei fod yn bosib rhannu eich arsylwadau gyda amrywiaeth o bobl dros y we ar wefannau cymdeithasol, er enghraifft, Trydar (Jackson,2019). Mae hwn yn berffaith er mwyn casglu safbwyntiau gwahanol. Gall hyn hefyd cynnwys adfyfyrion gyda chydweithwyr, ond mae angen ystyried os ydych yn yr un amgylchedd ac felly mae yna brinder o safbwyntiau gwahanol (Jackson,2019). Yn ogystal, esbonir (Jackson,2019), dull arall i adfyfyrion yw trwy asesu digwyddiadau wrth iddyn nhw ddigwydd yn hytrach nag mynd nôl ato ac ail asesu. Trwy'r ddull yma nid ydych yn asesu'r diwyddiad mewn digon o fanyldeb wrth gymharu gyda dulliau eraill. Mae'n anoddach i ddod at gasgliadau gyda'r fath yma o ddull. Dull arall gallwch ddefnyddio yw Cylchred Dysgu Kolb. Mae cylchred yma yn cynnwys camau dysgu, hunan-asesu, ystyried dulliau gwahanol o addysgu, trio'r dulliau yma ac ailadrodd (Cambridge Assessment, 2019). Mae (Dorothy Wallace, 2019) yn dadlau bod Cylchred Kolb yn amgylchynu dulliau gwahanol o ddysgu ac yn eu gosod nhw mewn cyd-destun sydd yn gallu bod yn gymorth i addysgwyr wrth ddatblygu'r ddulliau yma.

Y dull defnyddiais i oedd BWA. Mae'r model yma yn eithaf tebyg i Gylchred Kolb. Mae ganddo gamau eithaf tebyg, ond mae BWA a cham lle rydych yn trafod eich casgliad a chamau nesaf ar ôl arsylwi ac adolygu'r sefyllfa. Dewisais y model yma oherwydd mae ganddo ddarn lle rydych yn adfyfyrion fel athro yn edrych ar y dulliau defnyddiais gan hunan-asesu, a darn arall lle rydych yn y ddysgwr, ac yn dysgu o'ch camgymeriadau ac addasu eich methodoleg ar gyfer y dyfodol. Mae'n fodel syml a chllir gyda manyldeb i fedru ystyried wrth nodi eich hunan-gwerthusiad. Credaf fod y model yma yn addas ar gyfer adfyfyrion nôl ar yr achos critigol er mwyn ceisio dehongli y digwyddiad mewn mwy o ddyfnder. Gallwn weld hyn wrth gyfeirio at atodiadau 1,2,3 a 4.

Wrth gyfeirio nôl at y BWA a'r achos critigol, gallwch ddadansoddi'r achos a'i ddadansoddi yn effeithiol. Mae'r astudiaeth yn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth athro cyflenwi am anhawster disgybl a'i ymateb i'r sefyllfa. Digwyddodd yr achos critigol yma oherwydd diffyg

ymwybyddiaeth yr athro cyflenwi am y disgybl ac arweiniodd at ansicrwydd ar sut i ymateb. O ganlyniad i hyn, nid oedd yr athro cyflenwi yn gwybod sut i ymateb. Methodd i fynd at y disgybl i sicrhau ei fod e'n iawn na'i gysuro. Mae'n bosib effeithiodd hyn ar hunan hyder y disgybl oherwydd cafodd lawer o sylw gan y dosbarth a gan yr athro. Yn gyffredinol, roedd gan yr athro cyflenwi rheolaeth dda dros y dosbarth ac roedd y disgyblion yn bwrw ymlaen gyda'u gwaith. Gwelir atodiad 7. Mae'r achos critigol yma yn pwysleisio'r pwysigrwydd i bob aelod o staff fod yn ymwybodol o anhawsterau disgyblion yn yr ysgol. Wrth ddadansoddi ac ymchwilio mewn i'r achos critigol, dysgais ei fod yn hanfodol i fod yn ymwybodol o anhawsterau dysgu disgyblion ac anghenion disgyblion. I osgoi'r sefyllfa yma, byddaf yn defnyddio Proffil Un Tudalen. Yn ôl, (Sanderson, Smith a Liz Wilson, 2010), mae Proffil Un Tudalen yn ddefnyddiol i ddysgu am ddisgyblion a chadw nodyn o wybodaeth bwysig am yr unigolyn. Mae'n rhoi cyfle i ddisgybl gael llais ac esbonio beth sydd well ganddyn nhw (Sanderson, Smith a Liz Wilson, 2010). Credaf bod hyn yn ddull effeithiol buaswn i'n defnyddio er mwyn sicrhau fy mod i yn ddeall anghenion pob disgybl yn ogystal â unrhyw aelod o staff arall.

Casgliad

Wrth edrych nôl ar yr aseiniad, canolbwyntiais ar yr arsylwad, ymchwil a'r dull cymerais. Wrth gwblhau'r aseiniad yma, defnyddiais i'r dull astudiaeth achos i arsylwi dosbarth a dod o hyd i achos critigol, a defnyddiais Model Beirniadau Wedi Adfyfyrio er mwyn edrych nôl a dadansoddi'r nodiadau arsylwi. Roedd y dulliau yma yn addas ar gyfer arsylwi achos critigol gan ei fod yn ddull syml a chyflym i gymryd arsylwad gyda digon o fanylder. Mae'r dulliau yma yn cysylltu gyda Safonau Proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ysgolion yng Nghymru trwy roi arweiniad ar safonau dysgu ac addysgu trwy adfyfyrio ar yr achos (Hwb, 2019). Yn ogystal, mae'r dulliau yma yn pwysleisio elfennau o'r safonau trwy roi cyfle i ddysgu ac ehangu ar ein dealltwriaeth ar gyfer y dyfodol a bod yn gymorth i ni gyrraedd llwyddiant (Hwb, 2019). Mae hefyd yn berthnasol trwy roi cyfle i addysgwyr i gydnabod elfennau lle mae yna le i ddatblygu ymhellach (Hwb, 2019). Mae hwn yn cyfeiro at y syniad o sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o anghenion ychwanegol pob disgybl.

Mae'n bosib defnyddio'r astudiaeth achos yma ar gyfer camau dysgu ac addysgu. Wrth edrych yn ôl ar fy arsylwadau a'r ymchwil mae'n hanfodol i fod yn ymwybodol o anghenion disgyblion a'r ffordd gorau i ddelio gyda'r anghenion yma i sicrhau eu bod nhw'n dysgu yn llwyddiannus. Wrth ystyried yr ymchwil, bydd gwahaniaethu, Tudalen Un Proffil ac addasu'r amgylchedd, lle mae'n bosib, yn sicrhau bod y disgybl yn gyfforddus i addysgu a bod pob aelod o staff yn ymwybodol o sefyllfaoedd unigolion heb fod angen i ddisgyblion eraill esbonio'n gyhoeddus.

Felly i gloi, wrth ystyried yr achos critigol yma a defnyddio'r dulliau a modelau uchod, gallwn ddod at gasgliad ei fod yn hanfodol bod pob disgybl yn deall mai'u llwyddiant nhw yw'r nôd a bod pawb â'r hawl i dderbyn addysg beth bynnag yw'r sefyllfa.

Rhestr Cyfeirnodau

Adair. G. John, Sharpe, Donald a Huynh, Cam-Loi (1989) 'Hawthorne Control Procedures in Educational Experiments: A Reconsideration of Their Use and Effectiveness', *Review on Educational Research*, 59(2), tt. 215-228. URL: <https://www.jstor.org/stable/1170415>.

Bell, Judith a Waters, Stephen (2018) *Doing your Research Project. A Guide for First-time Researchers*. 7th Arg. London: Open University Press.

Burton, Dianna and Bartlett, Steve (2009) *Key Issues for Education Researchers*. London: SAGE Publications.

Cambridge Assesment International Education (2019) *Getting started with Reflective Practice*. Available at: (<https://www.cambridge-community.org.uk/professional-development/gswrp/index.html>) (Accessed 20th October 2019).

Chaney, Paul. (2012) 'Additional learning needs policy in the devolved polities of the UK: a systems perspective', *Journal of Research in Special Educational Needs*, 12(1), tt.28-36.

Dauncey, Michael (2016), 'Research Briefing: Additional Learning Needs (ALN) in Wales', *National Assembly of Wales*, November 2016. Available at: <http://www.assembly.wales/Research%20Documents/16-059%20SEN/16-059-Web-%20English.pdf> (Accessed: 8th October 2019).

Dauncey, Michael (2017), 'Research Briefing: Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill', *National Assembly of Wales*, March 2017. Available at: <https://www.assembly.wales/Research%20Documents/17-005/17-005-Web-English.pdf> (Accessed: 9th October 2019).

Dewis Cymru (2018) *Anghenion Dysgu Ychwanegol*. Available at: <https://www.dewis.cymru/additional-learning-needs-cyp> (Accessed: 18th October 2019).

Donaldson, Graham (2015) 'Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment', *Curriculum reviews*. Available at: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures.pdf> (Accessed 10th October 2019).

Dr. Shipon-Blum, Elisha (2019) *What is Selective Mutism?* Available at: <https://selectivemutismcenter.org/whatisselectivemutism/> (Accessed: 18th October 2019).

Estyn (2017) *Adroddiad Ysgol* [REDACTED]; Available at: [https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/document/\[REDACTED\].pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/document/[REDACTED].pdf) (Accessed: 9th October 2019).

Frederickson, Norah and Cline, Tony (2009) *Special educational needs, inclusion and diversity* 2nd Ed. Berkshire: Open university Press.

Gibson, Suanne and Blandford, Sonia (2005) *Managing Special Educational Needs*. London: Paul Chapman Publishing.

Hopkins, Dave (2008) *A Teacher's Guide to Classroom Research*. 4ydd Arg. Berkshire: Open University Press.

Hwb (2019) *Professional Standards*. Available at: <https://hwb.gov.wales/professional-development/professional-standards> (Accessed: 21st October 2019).

Jackson, Gemma (2019) *What is Reflective Practice*. Available at: <https://impact.chartered.college/article/what-is-reflective-practice/> (Accessed 20th October 2019).

Lawrence, Zena (2018) 'The Silent Minority: Supporting students with Selective Mutism using systemic perspectives', *Support for Learning*, 32(4).

Llywodraeth Cymru (2015) 'Cwricwlwm i Gymru', *Cymwys am Oes*. Available at: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cwricwlwm-i-gymru-cwricwlwm-am-oes.pdf> (Accessed 10th October 2019).

Ostrower, Francie (1998) 'Nonparticipant Observation as an Introduction to Qualitative Research', *Teaching Sociology*, 26(1), tt. 57-61. URL: <https://www.jstor.org/stable/1318680>.

Ramsey, Caroline (2006) *Introducing Reflective Learning*. London: The Open University.

Richards, Jack a Farrell, Thomas (2010) *Professional Development for Language Teachers*. Cambridge: Cambridge Univeristy Press.

Sanderson, Helen, Smith Tabitha a Wilson, Liz (2010) *One Page Profiles in Schools a guide*. Chesire: HSA Press.

Spooner, Wendy (2010) *The SEN Handbook for Trainee Teachers, NQTs and Teaching Assistants* 2nd Ed. London: Routledge.

Stats Wales (2019) *Number of pupils taking free school meals on census day by local authority, region and year*. Available at: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Provision-of-Meals-and-Milk/pupilstakingfreeschoolmealsoncensusday-by-localauthorityregion-year> (Accessed: 9th October 2019).

Tripp, David (1993) *Critical Incidents in Teaching. Developing Professional Judgement*. Oxon: Routledge.

Wallace, Dorothy (2019) 'Parts of the Whole: Theories of Pedagogy and Kolb's Learning Cycle', *Numeracy*, 12(1), pp. 1-7.

Welsh Government (2016) *Cwricwlwm newydd i Gymru* [video]. Available at: https://www.youtube.com/watch?v=_DaWTSFulYo&feature=youtu.be (Accessed at 10th October 2019).

Wightwick, Abbie (2019) Wales School colour codes 2019: These are the schools ranked green', *Wales Online*, 31st Jan. Available at: (<https://www.walesonline.co.uk/news/education/wales-school-colour-codes-2019-15758437>).

Wood, Phil a Smith, Joan (2016) *Educational Research. Taking the Plunge*. Carmarthen: Independent Thinking Press.

Atodiad 1

Prifysgol Cymru / University of Wales / Yr Athrofa / Education and Humanities / *Queenan*

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date:

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): *Difffyg deallusrwyddwr o ~~ffocws~~ annwybder disgybl.*

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	• Hapus a mwy hysurus. Gwyda barch mwy o deallusrwyddwr ynghylch a sut i rari debarth a ffurfau wahanol mae plant yn rari addysgu e.e. gobaith Cwestiynau. • Mwy hysurus ynghylch ag arsyli. Gwybod beth i chwilio am a phethau siad angen mwy o sylw.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	• Gwyda athro cyfnewid → disgyblion yn bwrw ymlaen gwyda'r gwaith a chafodd ei wad. Raws yn dda y nod ac yn dilyn y cyfnewidiadau. Trebus wrth symud i Horell Tech Gwyb. • Difffyg deallusrwyddwr am annwybder disgybl. Athro ddim yn ymmyboda. • Rari raddol y plant yn cymryd mawr o athro cyfnewid i raddau → ddim yn gwaith unigol er ddiwedd y ffordd.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysigaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	• Cadw'r hysurus → Gwyda'r athro hysurus da wrth adeisio gwyda'r debarth. • Gwyda'r arsyli gwaith deallusrwyddwr mwy gwyda'r y wers. • Pwysigrwydd o ffordd yn ymmyboda o argyhoeddi rari disgybl yn y debarth.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	• Siemau bod una gobaith o argyhoeddi disgyblion fel bod rari rari athro yn ymmyboda. ac yn dda y sefyllfa.

Y profiad newydd / Transformed experience

Atodiad 2

Prifysgol Cymru
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Alding a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: _____

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Disgynhau Siarodus

Teimladau/ Feelings	Profiad/ Experience
Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Deall hysbignwydd i roi opsiwn a chyfrwngad i ddysgu'n i wella ymddyddiad cyn ei eiddi.
Cofio a Deall/ Remember and Understand	Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse	Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysigaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions	

Y profiad newydd / Transformed experience

Atodiad 3

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date:

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Disgylu cam-behadio.

Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Profiad/ Experience
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	Deall y tactegau gwahanol a gynhyrchu a rhoi ymddyddiad de 'grob' ymddyddiad gwael. • Gwneud bawr Cyfrannu i'r wiers, iau ddi dantlen neu adeg cwestiynau. • Cymysgion bron pawr i gyfrannu i'r tasg. • Ar yr i'r bachgyn Cael ei gymryd allan i gael gair gen y ddiro rath i gyfrannu o'r y wiers a chael ei gannol. • Un neu ddau disgybl methu setio a cham-behadio, ond rathod yr ddiro yn meam ddiro gwael, sefyllfa yn effeithiol.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	• Bwydau yn caelw'r tacteg o beidio coar ddiro i'w mae disgybl yn cam-behadio. • Rhwng hysbys, tacteg o beidio siomi o ffaon y dosbarth mwy rai stur i'r disgybl, ond cymryd y disgybl i'r ddiro i gael gair. • Wastad a'wryddio i'w rath postaf. • Bachgyn ddiro yn canolbwyntio a ddiro gwael ddirodd.
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	• Efallai cael cymryd ddirodd i wael co bwyd mwy yn helpu disgybl i gannolbwyntio. • Cael wastad ddiro disgybl i gyfrannu i'r wiers a chaelw'r ddiro bwyd mwy o'r ddiro adeg cwestiynau.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 4

Prifysgol Cymru
University of Wales
Yr Athrofa
Education and Humanities

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)
Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date:

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): cael sylw'r ddbarwn.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Disgrybiad yn deall system o'r ddbarwn i fynu i ddechrau gwybodaeth → Roedd. Teimlo'n hysbysu bod yna ddrifn yn y ddbarwn. Yn deall yn well sut i reoli ddbarwn ac i gael sylw disgrybiad.
Cofio a Deall/ Remember and Understand Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a oeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	Roedd yna ddbarwn yn y ddbarwn chennu'dd raead y disgrybiad yn deall bod angen mai ddbarwn i fynu er mwyn cael sylw neu cymorth gan yr athrawes yn ogystal. Chwaraodd i gael sylw disgrybiad a chael nhw i ddbarwn neu gylch llawr neu aros yn ddbarwn nes bod nhw'n tawelu. Rhai disgrybiad yn farnau i ddbarwn, ond raead rhannuad yn gwrando.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	Nododd y ddbarwn o gylch i lawr chennu'dd maen rhai rhybudd i ddyn nhw i newid eu hymddygiad ac i ddbarwn. Hebyd, nododd y ddbarwn o ddbarwn i fynu i ddyn Cwrsyngau chennu'dd maen fferdd o gylch madaeb. Credaf bod yna sylwau well o gael ddbarwn i ddbarwn. Yn gael sylw ddbarwn i ddyn eiddau yn sicrhau bod ddbarwn o ddbarwn yn ddbarwn.
Casgliadau a chymau gweithredu/ Conclusions and actions Beth yw eich atebion posibl i'r materlau siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	Er mwyn sicrhau bod pawb yn ddbarwn neu cymud maen yn y ddbarwn mai yna sylwau wahardd ar gylch e.e. enwau ar 'oli-pop sides', enwau allan o het, 'wheel of fortune' aclyb.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 5

Prifysgol Cymru University of Wales Trinity Saint David	Yr Athrofa Addysg a Dyniaethau Education and Humanities	NODIADAU ARSYLWI / MAES (Cwestynnau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016)) Dyddiad: 26/9/19 Manylion y wers: <i>dorfen waith o wers heaf. ysgrifennid termiau Penodol & bell a ffeirio enghraifft o ddam.</i> Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwytio ar ddysgu?) <i>ydy - Rhai weidi cyflwyno llawer o gynyddoedd mynd i athrawes i dilyn cwsodynnau mudiadu i awlb cwsodynnau yn Baradus</i> Amanion (Oes pwmpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) <i>Oes Amcan → ysgrifennu oeb yr Cymharu Stonau Cybaunur Tafien Gyda 1/2 aus = gyfrannu xox = dorfen yn ymhaech gan fod rhan yn cael yn cytis dechrau tynnu tafien gwael gymmun (rhay dewe tan 3.00am) dohodanobu)</i> Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) <i>aeddi ond raead yna llaues o guddyndu a chnydro i dyfn yr atnaws mtrawes rhay alebon yn hirbach na adpar nniw Chutiedon yr aiebin Rhommu o symoth rau Mapu ei gwyd</i> Myneydiau a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) <i>aeddi a raead gan rau mu o Stonau i ddadaniodd naa eraill Ceiso Caet Pabl uatand i aieb cwedydhau</i> Asesu Sut mae'r athro yn asedu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? <i>Sut defnyddir hyn wrth addysgu? Cyn → dyn cwsodynnau am y wers Cyr Coel gem ar ddewed y uels ay aaid dopotydon un aian dopotydot ei gnyddu iain aia au itard term yn dau aia au ykwa dioglyt aia au cuadyddu uedduu</i> Manylebau / Achosion Belriadol (Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?) <i>Disgytha aedden ni'n arsylwi Hanner ffordd aur wers yn dyfn yr atnaws o gau hi nô cadair i mi heb i F. Ddyn y flath racot angen iddi dyn am agmatad i Symud cadair o haen y dobarm i gen y dobarm.</i>
---	---	--

Atodiad 6

Prifysgol Cymru
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES
(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19

Manylion y wers: Ecanion ar lunau a opiau -
 Dangos clip → gŵyn y dosbarth beth aedden
nhw'n gweithio yn gweithio
Diwylliant ar lawr dosbarth
(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)
Bach yn siaradus. Anadid i daweili.
Bach yn yn siaradus → gŵyn os bod en gŵynbod yr allb
i gweithio. Chd llywyddad Paul i gŵynsiir dagg.

Amcanion
(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas
hwnnw?) oedd → panau gŵyn amcanion gŵyn cynt
Dangos clip → dante a deau.

Cyfarwyddyd
(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)
Udy → Ecanion yn gŵyn beth aedden y casg. Gŵynos
deed yn gŵynsiirael.
Dangos clip yn ecanion sut mae llywyddad yn gŵynsiirael.

Mynediad a her
(Ydy pob myfyrwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyrwr ei herio?)
Pob dilyn yn dilyn y wers. Ecanion naed aedden
Pob yn cael ei herio. Ecanion rhai methu canolbwyntio
a siaradus.

Asesu
Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y
defnyddir hyn wrth addysgu? Gŵyn cwestiynau i bob gŵyn. Mynd
dros yr atebion. Ar ôl dange y clip yn ecanion sut
mae llywyddad yn gŵynsiirael, rhai argen labeili llywyddad
Manylebau / Achosion Beirniadol
Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?
Dim feren yn siaradus + chwarae o gŵynsiirael.
Tro cyntaf → cael myfyrwr.
Zau bro → cael yr opiau i nai nai aros gŵyn
opiau a weithio neu cael ei gwahand. Cŵyn siaradus!
Ar ôl cael yr opiau → panau i siaradus.
Cael ei coebi → mewn amser egruyl a nodyn
yn eu llyfrau cydurt.

Atodiad 7

 Prifysgol Cymru Y Ddrud Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David	Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau Education and Humanities
NODIADAU ARSYLWI / MAES (Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))	
Dyddiad: 26/9/19 Manylion y wers: Athro Cyfnewid ymchwilio mewn i gerddoriaeth Blues a ymchwilio mewn i Cwrs Cerddoriaeth	
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddydd?) Pa ddol en nhw'n beirio? Yn ymunda i ystafellu techn gyda Deuddegolod yd athro nhw'n i dda' rdd' i wers. Ehan fydab yn cwahau'r gwaith Eran ddim yn canolbwyntio i eiddo ei gylid. Bechgyn ymchwilio a gumpas yn fawr ei gylid.	
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) aedd. Pamau i ymchwilio mewn i'r themd yn wero dylanod Cwrs pwrpas gyda'r gwybodaeth fel dechreuad	
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Ysgrifennodd Cyfarwyddiadau ar y burdd gwyn. 'On merch wedi ysgrifennu cyfarwyddiadau lawr ar post it note i gymnid gwaith ni.	
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Roedd Paws yn dilyn. Rhai yn gymnid manta' ei athro a gweithio mewn gwyb yn nwyd na' ymunda. Eran yn chwarae o gumpas. Eiddo'r roedd y gwaith yn rhy swnl.	
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Ddim wedi aedd eu dealltwriaeth.	
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Bechgyn selective mute → On cael ei ddiwedd ar y gofrestr. ddim yn ateb. Athro ddim yn ymmyddol o hyn. Gwddid y dda' rdd' yn dda' rdd' 'dym' ddim yn siared. Nw yn siared gyda weddill y dda' rdd'. Athro ddim yn ymmyddol. Wn i'r bant eiddo'i'r athro gau achos i fachgyn Swilio.	

Atodiad 8

Prifysgol Cymru
University of Wales
Ynys-y-Daia

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES
(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19

Manylion y wers: yn ystod yr awyrgylch cyntaf ym 1919. Astudiodd alyddwyr a hysgus cymryd y ddwy ymchwilio mewn i bwy a deunyddiau cyffwrdd i greu un ei hun.

Diwylliant ar lawr dosbarth
(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)
Ragor rhannu'r yn canolbwyntio. Gysp bach o
kennys yn chwarae o gumpas. Gydde cynnwys
drosia er mwyn cello adeg pob chwarae a gwrpas.

Amcanion
(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Joo → Cynnwys blaog. Ragor angen cysgu pob darn o wyddiaeth erbyn diwedd yr wydd.

Cyfarwyddyd
(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)
Ragor nhw beth i'w wneud ar y bwrdd ~~g~~ gwyn.
Cyfarwyddau clir

Mynediad a her
(Ydy pob myfyrwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyrwr ei herio?)
Ragor pawb yn dilyn y wers. Nid aedol pawb
wedi cael ei herio. Ragor pawb yn wneud yr un
wedi o waith ddis pob i ddarllen

Asesu
Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Abyn cwestiynau am wers cynt.
A bynny gysgu y wers. Ddis ennyau ar hap i
atb cwestiynau o aedden nhw'n sefnd ragorol hawn iadlen

Manylebau / Achosion Beirniadol
(Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?)
Pob di'gysgu yn rhoi Maw Fyru i dbyn cwestiynau a
i gael ddis
Er mwyn cael sylw plant, ragor hi'n cyfni i lawr
neu aros yn dawel.
O aedden nhw'n dbyn cwestiynau, ragor
hi'n adegor nhw i ymchwilio am yr atb yn
hulbach na rhoi atb iadlen nhw.